

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn : Polisi Ymddygiad, Disgyblaeth a Pherthnasodd



Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wraidd cynllunio, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, yn ogystal ag addysgu am hawliau plant, rydym hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob un o'n perthnasodd.

Rhagarweiniad

Diben y polisi hwn yw amlinellu sut byddwn yn ymdrin âg ymddygiad, disgyblaeth a pherthnasodd o fewn ein cymuned ysgol. Bydd hyn yn golygu dull ysgol-gyfan ar gyfer adeiladu, cynnal a thrwsio (ACT) perthnasodd gyda phawb y byddwn yn gweithio gyda nhw – plant ac oedolion, disgyblion, staff, llywodraethwyr, teuluoedd, y gymuned leol a'r holl asiantaethau y byddwn yn gweithio gyda nhw. Rydym yn gwneud pob ymdrech i gyflawni hyn drwy ddefnyddio dull gweithredu adferol cyson.

Mae'r polisi yma yn cyd-weithio gyda'n polisi Gwrth Fwlio [Polisi Gwrth Fwlio 2023.pdf](#)

Amcanion a disgwyliadau

Prif amcan ein hysgol yw bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u parchu, a bod pob person yn cael ei drin yn deg ac yn dda. Rydym yn gymuned ofalgar, gyda'n gwerthoedd wedi eu hadeiladu ar ymddiriedaeth y naill at y llall a pharch tuag at bawb. Felly, mae polisi ymddygiad, disgyblaeth a pherthnasodd yr ysgol wedi ei gynllunio i gefnogi'r ffordd mae holl aelodau'r ysgol yn gallu byw a gweithio gyda'i gilydd mewn modd cefnogol. Mae'n anelu at hyrwyddo amgylchedd lle mae pawb yn teimlo'n hapus a diogel.

Nod y polisi hwn yw helpu plant i dyfu mewn amgylchedd diogel a sicr, ac i ddod aelodau cadarnhaol, cyfrifol a chynyddol annibynnol o gymuned yr ysgol. Rydym hefyd yn cydnabod, o fewn hinsawdd o gynhwysiant, y bydd yna blant sydd angen a ymagwedd bersonol at eu hanghenion ymddygiad penodol. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn golygu hynny bod y sancsiynau, y camau a'r gwobrau yn cael eu cymhwyso'n briodol wrth ymdrin â'u hymddygiad a gellir defnyddio rhaglenni ymyrraeth a chymorth eraill ar y cyd â rhaglenni allanol asiantaethau. Mae pwysigrwydd cymryd agwedd aml-asiantaeth at reoli ymddygiad yn ganolog.

Mae'r polisi yma yn cefnogi cymuned yr ysgol wrth anelu at ganiatáu pawb i gydweithio mewn modd effeithiol ac ystyrlon.

Mae'r ysgol yn disgwyl i bob aelod o gymuned yr ysgol i ymddwyn mewn modd ystyrlon tuag at eraill. Rydym yn trin pob plentyn yn deg ac yn cymhwyso'r polisi yma'n gyson. Mae'r polisi yma'n anelu at helpu plant i dyfu mewn amgylchedd diogel ac i fod yn aelodau cadarnhaol, cyfrifol a gynyddol annibynnol o gymuned yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwobrwyo ymddygiad da, gan ei bod yn credu bydd hyn yn datblygu ethos o garedigrwydd a chydweithrediad. Mae'r polisi yma wedi ei gynllunio i hyrwyddo ymddygiad da, yn hytrach na dim ond rhwystro ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gwobrwyo a Sancsiynau

Rydym yn gwobrwyo a sancsiynu plant am ymddygiad da mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- Athrawon yn llongyfarch plant.
- Rydym yn dosbarthu teilyngdodau i blant, un ai am waith da cyson neu ymddygiad, neu i gydnabod ymdrech rhagorol neu weithred o garedigrwydd yn yr ysgol. Gwasanaethau gwobrwyo wythnosol.
- Defnyddir Class Dojo ym mhob dosbarth er mwyn canmol ymddygiad ac ymrwymiad da yn ogystal a champau cosb.
- Plant yn derbyn top llaeth am barchu iaith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cydnabod holl ymdrechion a chyflawniadau'r plant, oddi fewn a thu allan i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio nifer o sancsiynau er mwyn gweithredu rheolau'r ysgol, ac i sicrhau amgylchedd ddysgu diogel a chadarnhaol. Rydym yn defnyddio pob sancsiwn yn briodol i bob sefyllfa unigol.

- Disgwylir i'r plant wrando'n ofalus i'r cyfarwyddiadau yn ystod gwersi. Os nad ydynt yn gwneud hyn, rydym yn gofyn iddynt un ai i symud i eistedd yn agosach at yr athro, neu i eistedd ar eu pen eu hunain.
- Rydym yn disgwyl i'r plant roi o'u gorau ym mhob gweithgaredd. Oni wneir hyn, rydym yn debygol o ofyn iddynt ail-wneud y dasg.
- Os yw plentyn yn amharu ar y dosbarth, mae'r athro yn ceryddu ef neu hi. Os yw plentyn yn camymddwyn yn gyson, rydym yn ynysu'r plentyn oddi wrth weddill y dosbarth hyd nes bod y plentyn yn tawelu ac yn gallu gweithio'n synhwyrrol eto gyda gweddill y dosbarth.
- Mewn pob sefyllfa, diogelwch y plant sydd bennaf. Os yw ymddygiad plentyn yn peryglu diogelwch eraill, mae'r athro dosbarth yn atal y gweithgaredd ac yn rhwystro'r plentyn rhag cymryd rhan am weddill y sesiwn yna.
- Os yw plentyn yn bygwth, brifo neu fwllian plentyn arall, mae'r athro dosbarth yn cofnodi'r digwyddiad ar **My Concern** a'r plentyn yn cael ei gosbi. Os yw plentyn yn ymddwyn mewn modd sydd yn aflonyddu neu gyffroi eraill yn barhaus, mae'r ysgol yn cysylltu gyda rhieni'r plentyn a threfnu apwyntiad i drafod y sefyllfa, i'r perwyl o wella ymddygiad y plentyn.

Mae'r athro dosbarth yn trafod rheolau'r ysgol gyda phob dosbarth yn ychwanegol i reolau'r dosbarth.

 Rheolau Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn Erthygl 36: Ein hawl i gael ein diogelu rhag gwybodaeth pethau a allai beri niwed i chi	
Cymreictod Erthygl 30: Ein hawl i ddefnyddio ein hiaith a deithio ein diwylliant Yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, rydym yn ... ★ dechrau pob sgwrs yn Gymraeg ★ helpu eraill i siarad Gymraeg bob amser ★ dangos balchder yn ein hiaith, diwylliant a'n gwlad ★ Dysgwyr uchelgeisiol, galluog	Parch Erthygl 37: Ein hawl i gael ein trin yn deg Yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, rydym yn ... ★ parchu ein hunan a theulu'r ysgol ★ parchu barn, safbwynt, credoau a diwyllannau eraill ★ parchu eiddo ac offer ★ Dinasyddion egwyddorol, gwybodus
Yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, rydym yn ... ★ Gwenudd ein gorau glas ar bob adeg ★ Yn gwrthod rhoi'r ffidil yn y to ★ Meddwl yn bositif i gyrraedd y nod—rhoi cynnig arni ★ Cyfranwyr mentrus, creadigol	Yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, rydym yn ... ★ derbyn cyfrifoldeb am ein hymddygiad ein hunain ★ dinasyddion cyfrifol sydd yn gofalu am yr ysgol a'r gymuned ★ gyfrifol am weithredu rheolau'r ysgol ★ Unigolion iach, hyderus
Dyfalbarhau Erthygl 29: Ein hawl i fod y gorau y gallwn fod 'Nid da lle gellir gwell'	Cyfrifoldeb Erthygl 28: Ein hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol Llosgiwyd y rheolau yma gan Gynghora'r Ysgol

Polisi Ymddygiad, Disgyblaeth a Pherthnasoedd YGG Parc y Tywyn

Trwy hyn, mae pob plentyn yn yr ysgol yn gwybod y safon o ymddygiad rydym yn disgwyl yn ein hysgol. Os oes unrhyw achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae'r athro dosbarth yn trafod y rhain gyda'r dosbarth cyfan yn ystod amser cylch.

Nid yw'r ysgol yn goddef bwliau o unrhyw fath. Os rydym yn canfod fod gweithred o fwlliau neu frawychiad wedi cymryd lle, rydym yn gweithredu'n syth i atal unrhyw ddigwyddiadau pellach o ymddygiad o'r fath. Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau fod pob plentyn yn gallu mynychu'r ysgol heb ofn.

Mae holl aelodau'r staff yn ymwybodol o'r rheolau parthed y defnydd o rym gan athrawon. Mae staff ond yn ymyrryd yn gorfforol i rwystro plant neu i atal niwed i blentyn, neu os yw plentyn mewn perygl o niweidio'i hun. Mae'r camau a gymerwn yn unol â chanllawiau'r llywodraeth a parthed rhwystro plant. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi yn y dull Team-Teach (gweler Atodiad 1)

Esbonio Fframwaith Arfer Adferol

Rydym yn dilyn fframwaith Arfer Adferol sy'n ymdrin a pherthnasoedd positif. Mae rhoi egwyddorion Arfer Adferol ar waith yn ein helpu i ganolbwyntio ar adeiladu'n well perthynas â'n gilydd, gan gymryd yr amser i sicrhau bod pob aelod o'n cymuned hysgol yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnom, yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu. Rydym yn cefnogi disgyblion i ddatblygu'r sgiliau i gynnal perthnasoedd cadarnhaol a datrys anghytundebau a phroblemau eu hunain. Mae addysgu ein disgyblion i ddeall sut mae eu hymddygiad yn effeithio ar eraill ac yn effeithio arnynt. Caiff disgyblion eu cefnogi'n barchus i nodi ffyrdd y gallent unioni'r niwed y maent wedi'i achosi. Mae'r dull hwn yn sicrhau nad ydym yn addysgu disgyblion y byddant yn cael eu cosbi drwy niweidio eraill a dylent felly osgoi cael eu darganfod. Yn hytrach, rydym yn eu helpu i ddod aelodau empathig, ystyriol o gymdeithas sydd â'r sgiliau i osgoi a datrys problemau yn annibynnol.

Rydym yn adeiladu ac yn cynnal perthnasoedd yn rhagweithiol er mwyn creu ymdeimlad o gymuned. Pan fydd perthnasoedd yn positif, mae llai o duedd ynom i wneud niwed i'n gilydd, gan leihau felly faint o wrthdaro a fydd yn ein cymuned ysgol. Byddwn yn myfyrio'n gyson ar y pethau y bydd eu hangen arnom oddi wrth ein gilydd er mwyn i ni gael bod y gorau y gallwn fod. Byddwn yn ymdrechu bob amser i gydweithio er mwyn datrys problemau a gwrthdaro. Byddwn yn defnyddio dulliau gweithredu adferol cyson er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, o atal niwed, o blaid ymyriadau cynnar hyd at ymateb lefel uchel ar gyfer enghreifftiau o niwed mwy difrifol. Gweler yr Atodiad isod ar gyfer y dull wedi'i lefelu a'n fframwaith ar gyfer arfer orau.

Egwyddorion Adferol ac Arferion Gorau

Pan fydd perthnasoedd wedi'u niweidio, mae'n bwysig cymryd y camau adferol priodol wedi'u lefelu, i alluogi'r bobl berthnasol i atgyweirio niwed, adeiladu empathi, datrys problemau, a symud ymlaen ar y cyfle cyntaf. Mae'n ddefnyddiol bod pawb yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yn cofio bob amser yr egwyddorion adferol craidd a nodir gan y Cyngor Cyfiawnder Adferol a Phartneriaeth Gweithredu Adferol Cymru (gweler isod) a'u defnyddio mewn sefyllfa positif yn ogystal. Mae'r egwyddorion hyn yn allweddol i fodel cyson Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn er mwyn mynd i'r afael â niwed. Maen nhw wedi'u halinio ag Adroddiad Donaldson, nodau trosafael Diwygio Cwricwlwm Llywodraeth Cymru a Siarter y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Adeiladu a Chynnal Perthnasoedd

Mae bron pob aelod o'r staff wedi'u hyfforddi mewn dulliau Gweithredu Adferol a disgwylir iddyn nhw ddefnyddio'r dulliau hyn. Bydd hyn yn cynnwys adeiladu perthnasoedd gyda'r plant, cydweithwyr, rhieni a gofalwyr, a'r gymuned ysgol ehangach. Un ffordd y byddwn yn gwneud hyn yw drwy ddefnyddio amser cylch ar gyfer sesiynau gwirio wythnosol a defnyddio atebion i ddatrys problemau wrth iddyn nhw godi. Caiff

Polisi Ymddygiad, Disgyblaeth a Pherthnasoedd YGG Parc y Tywyn amrywiaeth o ymarferion cylchoedd eu gweu drwy'r gwaith dysgu ac addysgu er mwyn adeiladu perthnasoedd a chynyddu cydweithredu a myfyrio.

Byddwn hefyd yn disgwyl i'r staff ddefnyddio ymholi adferol a datganiadau "dwi" i annog y person y byddwn yn gweithio gyda fe/hi i fod yn fyfyrwr, yn onest ac i gael hyd i ffordd ymlaen gyda'u problem.

(Datganiadau "dw i..." Pan dw i'n gweld / clywed.....Dw i'n meddwl Ac dw i'n teimlo'nDw i angenBydde ti'n fodlon)

Caiff ein cytundebau ystafell ddosbarth eu datblygu bob Medi i ddechrau gyda phob grŵp blwyddyn newydd er mwyn gwneud ein hystafelloedd dosbarth yn gymunedau a fydd yn ystyried anghenion ein gilydd ac am ein hanghenion ni ein hunain, ac yn ymddwyn â pharch tuag at ein gilydd.

Mae ein cyfryngwyr gymheiriaid (BYDIS), sy'n ddisgyblion o flwyddyn 5, yn aelodau allweddol o'r tîm adferol hefyd. Byddan nhw'n helpu i fynd i'r afael â phroblemau gynted â phosib ac ar y lefel isaf bosib drwy weithredu yn yr un ffordd ar gais plant. Pan gawn gyfarfodydd gydag aelodau o deuluoedd, gofawyr ac asiantaethau eraill, byddwn yn mabwysiadu ymagwedd a dull gweithredu adferol yn ddewis cyntaf i ni hyd byth y gellir. Cysylltir hyn gyda'r Adferion Plentyn Canolog. (Pecyn a thaflenni cofnodi yn swyddfa y Pennaeth).

Dysgu ac Addysgu

Ein nod yw meithrin cariad at ddysgu gydol oes yn ein disgyblion, ac felly bydd ein holl staff yn modelu perthnasoedd da ac yn arfer yr hyn y byddwn yn ei bregethu. Byddwn yn cydweithredu â'n gilydd a gyda'r disgyblion a'u siwrnai ddysgu hwythau, ac yn ymgysylltu â'u teuluoedd a'u gofawyr lle bynnag y bydd hynny'n bosib er mwyn adeiladu perthnasoedd ac er mwyn ymgysylltu â'r dysgu. Cafodd y staff sawl diwrnod HMS a'u goruchwyllo er mwyn datblygu ein sgiliau yn defnyddio cylchoedd gwahanol i gael adeiladu a chynnal perthnasoedd. Byddwn yn defnyddio cylchoedd ar gyfer dysgu ac addysgu, er enghraifft wrth ddechrau pwnc newydd; mewn sesiynau llawn; er mwyn annog dysgu o dan arweiniad cymheiriaid a sgiliau gwranddo a siarad traws gwricwlaidd; ac er mwyn gwneud a rhannu penderfyniadau yng nghyfarfodydd y cynghorau ysgol.

Mae pob digwyddiad ymddygiadol a gwrthdaro yn gyfleoedd ar gyfer dysgu cymdeithasol ac emosiynol ar unrhyw bryd, a gyda phlant a'r staff, gan gynnwys goruchwylwyr amser cinio a staff cymorth a theuluoedd/gofawyr. Bydd ymateb adferol yn galluogi plant a phob oedolyn a fydd yn gweithio gyda nhw, i gydweithio'n gyson i gael adeiladu ein cymuned ddysgu. Cyflwyno geirfa emosiynau newydd ar ddechrau pob Pod.

Cytundeb Ystafell Ddosbarth, Cylchoedd mewn Ystafelloedd Dosbarth a Chylchoedd mewn Grwpiau

Ar ddechrau'r Flwyddyn Academaidd

- Caiff ymarfer Anghenion yr Ystafell Ddosbarth ei gwblhau gyda phob dosbarth newydd, a chaiff anghenion ysgol-gyfan eu hadnabod oddi wrth y rhain. (Arweinydd Gweithredu Adferol i sicrhau y caiff hwn ei gwblhau erbyn diwedd ail wythnos Tymor yr Hydref.) Bydd modd edrych eto ar Anghenion yr Ystafell Ddosbarth ar ddechrau Tymor y Gwanwyn a bydd pob aelod o'r staff a'r disgyblion yn cyfeirio atyn nhw ac yn eu hadolygu yn gyson yn ôl yr angen.

Yn wythnosol

- Defnyddio amser cylchoedd yn ystod cofrestru Dydd Llun a phrynhawn Dydd Gwener. Bydd rôl gan athrawon i gael disgyblion i ymgysylltu a'u hannog i arwain ar brydiau.
- Gwirio wedi'r penwythnos.

Delio â Digwyddiadau, gan ddefnyddio Gweithredu Adferol

- Bydd disgwyl i'r holl staff gefnogi egwyddor defnyddio Gweithredu Adferol drwy gefnogi a herio'i gilydd a'r disgyblion i fabwysiadu hyn yn ddull gweithredu o'u dewis.
- Wrth ddelio â mân ddigwyddiadau, dylai'r staff ddefnyddio 'Datganiadau dw'i...' a Chwestiynau Ymholi Adferol i gael delio â'r sefyllfa a fydd yn codi. Yr un fydd y cwestiynau craidd hyn ar gyfer cyfryngwyr gymheiriaid ac ar gyfer cyfarfodydd mwy ffurfiol, a chân nhw eu rhannu gyda phob disgybl ac oedolyn. Dyma nhw:-

Beth ddigwyddodd?

Tynnu stori pob person allan un ar y tro, gan ddechrau gyda'r person sydd wedi achosi'r stori niwed. Nid dod i gasgliad pendant ar yr hyn sydd wedi digwydd yw'r nod o reidrwydd, ond i bob person gael gwrandawriad i'w safbwynt.

Beth ydych chi'n ei feddwl a'i deimlo am hynny?

Beth oedd pob person yn ei feddwl ac yn ei deimlo ar y pryd, cyn ac ers hynny.

Pwy sydd wedi cael eu heffeithio a sut?

Pwy sydd wedi cael ei niweidio/effeithio a sut? Anogir y plant hyn i feddwl am y goblygiadau ehangach pwy sydd wedi cael eu heffeithio e.e. cymuned yr ysgol a theuluoedd.

Beth fydd ei angen arnoch i chi gael teimlo'n well?

Beth sydd ei angen ar y rhai yr effeithir arnynt i deimlo'n well, symudwch ymlaen, atgyweirio niwed ac ailadeiladu perthnasoedd.

Beth ydych chi'n meddwl sydd angen digwydd nesaf i wneud pethau'n iawn gyda'ch gilydd a'r gymuned ysgol?

Sut mae'r bobl hynny'n cytuno ac yn negodi i ddiwallu'r anghenion a nodwyd uchod a pha gymorth efallai y bydd angen iddynt wneud hyn? Mae staff yn cefnogi disgyblion yn y broses hon ond yn ceisio sicrhau bod y disgyblion yn ffurfio eu cytundeb eu hunain pan fo modd

- Ni ddylai Arferion Adferol gael eu hystyried ar eu pennau eu hunain neu yn gyfryngau na chaiff eu defnyddio ond wedi i'r niwed ddigwydd, ond yn hytrach dylid eu modelu a'u cysylltu â'r holl ryngweithiadau positif a fydd yn digwydd ar hyd y diwrnod ysgol.
- Caiff ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr ac asiantaethau partner ei gyflawni hefyd drwy ddefnyddio'r un dull cyson (lle bynnag y bydd hynny'n bosib), gan glymu gydag egwyddorion Plentyn Canolog (lle mae llais pob unigolyn yn cael eu clywed a'u parchu)..

Atgyweirio / Trwsio Perthnasoedd

Mewn enghreifftiau o wrthdaro, byddwn yn disgwyl i'r bobl berthnasol gael hyd i atebion er mwyn symud ymlaen ac atgyweirio'r berthynas lle y bydd hynny'n bosib. Drwy fod â'r un dull gweithredu adferol er mwyn datrys gwrthdaro, gallwn gyflawni hyn mewn ffordd deg a chynhwysol ar gyfer pawb a fydd wedi'u heffeithio. Byddwn yn datrys problemau ac yn cynllunio er mwyn i'r niwed beidio â digwydd eto.

- Dylai unrhyw rai perthnasol gael y cyfle i gymryd rhan mewn Cyfarfod Adferol yn dilyn paratoi digonol, gan ddefnyddio ymholi adferol a rhoi amser i'r person feddwl am y cwestiynau a ofynnir iddyn nhw a sut y gallan nhw drwsio'r niwed a symud ymlaen. Gweler taflenni unigolion 'Meddwl am Fy Ymddygiad' sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro i ateb y cwestiynau adfer a thrafod y digwyddiadau gyda staff.

Polisi Ymddygiad, Disgyblaeth a Pherthnasoedd YGG Parc y Tywyn

- Ar ddiwedd y cyfarfod, wedi i bob un perthnasol gytuno ar ffordd ymlaen, bydd rhaid llenwi Cytundeb Canlyniad i gael cofnodi'r pethau a fydd wedi'u cytuno cyn i'r holl bartïon ei lofnodi. Caiff y cofnodion hyn eu cadw'n ddiogel yn y swyddfa a'u tracio gan yr hwylusydd adferol i sicrhau y caiff y canlyniadau cytunedig eu gweithredu dros amser.
- Bydd rhaid i bawb gytuno i gymryd rhan yn y cyfarfod a dylid ei gynnal cyn gynted â phosib i osgoi rhagor o niwed ac i'r broblem gynyddu. Yn ddelfrydol, dylid cynnal cyfarfod adferol ar yr un diwrnod ag y gwnaeth y broblem godi, oni bydd angen mwy o amser paratoi, am resymau iechyd, diogelwch a lles, er mwyn galluogi mwy o ymgysylltu a myfyrïo a/neu y bydd angen mwy o bobl i ddod i'r cyfarfod, e.e. rhiant/gofalwr neu weithiwr cymdeithasol.
- Angen cynnwys eglurhad o'r "ACT" a'r symudiad? Helpu'r disgyblion, yn enwedig y rhai lleiaf neu sydd ag ADY i egluro a deall gwrthdaro a sut i atgyweirio'r sefyllfa. Gweler taflen 'Meddwl am Fy Ymddygiad'. Staff i lenwi'r daflen ar ran yr unigolyn os yn cael trafferth darllen/ysgrifennu.

Rolau a Chyfrifoldebau:

Rôl yr athro dosbarth

Mae'n gyfrifoldeb ar yr athrawon dosbarth i sicrhau y gweithredir rheolau'r ysgol yn eu dosbarthiadau, a bod eu dosbarthiadau yn ymddwyn mewn modd cyfrifol yn ystod amser gwers.

Mae gan yr athrawon dosbarth yn ein hysgol ddisgwyliadau uchel oddi wrth y plant parthed ymddygiad ac maent yn ymdrechu i sicrhau fod yr holl blant yn gweithio i eithaf eu gallu.

Mae'r athro dosbarth yn trin pob plentyn yn deg ac yn gweithredu'r cod dosbarth yn gyson. Mae athrawon yn trin pob plentyn yn eu dosbarth gyda pharch a dealltwriaeth.

Os yw plentyn yn camymddwyn yn y dosbarth, mae'r athro dosbarth yn cadw cofnod o bob achos o'r fath. Yn yr achos cyntaf, mae'r athro ei hun yn delio gyda'r sefyllfa yn y dull arferol. Fodd bynnag, os yw'r camymddwyn yn parhau. Mae'r athro dosbarth yn ymofyn help a chynghor oddi wrth yr arweinydd pod, y dirprwy neu'r pennaeth.

Mae'r athro dosbarth yn cydweithio gydag asiantaethau allanol yn ôl y gofyn, i gynnal ac arwain cynnydd pob plentyn. Efallai fydd yr athro yn trafod anghenion y plentyn gyda'r swyddog lles addysg neu wasanaeth cynnal ymddygiad yr AALI er enghraifft.

Mae'r athro dosbarth yn adrodd i rieni am gynnydd pob plentyn yn ei dosbarth, yn unol â'r polisi ysgol-gyfan. Bydd yr athro dosbarth hefyd yn cysylltu gyda'r rhiant os oes pryderon ynglŷn ag ymddygiad neu les plentyn.

Rôl y pennaeth, y dirprwy a'r Uwch Dim Rheoli

Mae'n gyfrifoldeb ar y pennaeth, y dirprwy a'r UDRh i weithredu polisi ymddygiad, disgyblaeth a pherthnasoedd yr ysgol yn gyson ar draws yr ysgol ac i adrodd i'r llywodraethwyr, yn ôl y gofyn, ar effeithiolrwydd y polisi. Y pennaeth, y dirprwy a'r UDRh sydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau iechyd, diogelwch a lles pob plentyn yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth, y dirprwy a'r UDRh yn cefnogi'r staff trwy weithredu'r polisi, gosod y safonau ymddygiad, a chefnogi'r staff wrth iddynt weithredu'r polisi.

Mae'r pennaeth neu'r dirprwy a'r UDRh yn cadw cofnod o bob achos difrifol o gamymddwyn a adroddwyd.

Mae'r pennaeth yn gyfrifol am roi gwaharddiad tymor penodol i blant unigol am weithredoedd difrifol o gamymddwyn. Mae'r pennaeth yn gallu gwahardd plentyn yn barhaol yn dilyn gweithredoedd difrifol iawn neu

Polisi Ymddygiad, Disgyblaeth a Pherthnasoedd YGG Parc y Tywyn
barhaus o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dim ond ar ôl hysbysu llywodraethwyr yr ysgol y cymerir y camau
yma.

Rôl y rhieni

Mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r rhieni, er mwyn i'r plant dderbyn negeseuon cyson am sut i ymddwyn adref ac
yn yr ysgol.

Rydym yn disgwyl i rieni gefnogi dysgu eu plentyn, ac i gydweithio gyda'r ysgol, fel y'i gosodir yn y cytundeb
cartref/ysgol, ac rydym yn hysbysu rhieni'n syth os oes gennym bryderon am les neu ymddygiad eu plentyn.

Os oes rhaid i'r ysgol ddefnyddio sancsiynau rhesymol i gosbi plentyn, rydym yn disgwyl i'r rhieni i gefnogi
gweithredoedd yr ysgol. Os oes gan rieni unrhyw bryderon am y modd mae eu plentyn wedi ei drin, i gychwyn,
dylid cysylltu gyda'r athro dosbarth ac yna'r pennaeth. Os yw'r pryder yn parhau, dylid cysylltu gyda
llywodraethwyr yr ysgol. Os nad yw'r trafodaethau yma'n gallu datrys y broblem, gellid gweithredu'r broses
cwynion ffurfiol.

Rôl y llywodraethwyr

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am osod y canllawiau cyffredinol yma ar safonau disgyblaeth ac ymddygiad,
ac o adolygu eu heffeithiolrwydd. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r pennaeth trwy lynu at y canllawiau yma.
Mae gan y pennaeth awdurdod o ddydd-i-ddydd i weithredu polisi'r ysgol ar ymddygiad a disgyblaeth.

Gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol

Nid ydym yn dymuno gwahardd unrhyw blentyn o'r ysgol, ond ar brydiau, gall hyn fod yn angenrheidiol.

Dim ond y pennaeth sydd â'r hawl i wahardd unrhyw blentyn o'r ysgol. Gall y pennaeth wahardd plentyn am un
cyfnod penodol neu fwy, am hyd at 45 diwrnod mewn unrhyw un flwyddyn ysgol. Mewn achosion eithafol a
sefyllfaoedd eithriadol, gall y pennaeth wahardd plentyn yn barhaol. Mae hefyd yn bosibl i'r pennaeth
drosglwyddo gwaharddiad cyfnod penodol i waharddiad parhaol, os yw'r sefyllfa yn ei warantu.

Os yw'r pennaeth yn gwahardd plentyn, mae'n hysbysu'r rhieni yn syth, gan roi'r rhesymau am y gwaharddiad.
Ar yr un pryd, mae'r pennaeth yn ei wneud yn eglur i'r rhieni eu bod yn gallu, pe ddymunant, apelio yn erbyn y
penderfyniad i'r corff llywodraethol. Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni sut i wneud apêl o'r fath.

Mae'r pennaeth yn hysbysu'r AALI a'r corff llywodraethol am unrhyw waharddiad parhaol, ac am unrhyw
waharddiad tymor penodol y tu hwnt i bum diwrnod mewn unrhyw un tymor.

Ni all y corff llywodraethol ei hunan wahardd plentyn nac ymestyn cyfnod y gwaharddiad a wnaed gan y
pennaeth.

Mae gan y corff llywodraethol Bwyllgor Gwahardd Disgyblion sydd yn cynnwys pum aelod. Mae pwyllgor arall
o'r llywodraethwyr yn ystyried unrhyw apeladau ar waharddiadau ar ran y llywodraethwyr.

Pan fod panel apêl yn cwrdd i ystyried gwaharddiad, maent yn ystyried yr amgylchiadau y gwaharddwyd y
plentyn, yn ystyried unrhyw gynrychiolaeth gan rieni a'r AALI ac yn ystyried a ddylai'r plentyn gael ei adfer.

Os yw panel apêl y llywodraethwyr yn penderfynu dylid adfer y plentyn, mae'n rhaid i'r pennaeth gydymffurfio
gyda'r dyfarniad hwn.

Mae pob gwaharddiad o'r ysgol, boed yn gyfnod penodol neu'n barhaol, yn dilyn y canllawiau llym

Polisi Ymddygiad, Disgyblaeth a Pherthnasoedd YGG Parc y Tywyn
a osodwyd gan yr ALL a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dyma cam olaf yr ysgol ac nid ydym yn gwneud y penderfyniad yn hawdd. Hysbysir y Corff Llywodraethol ar unwaith am waharddiad.

Yn dilyn gwaharddiad rhoddir cynllun yn ei le i sicrhau ail-integreiddio llwyddiannus disgybl.
(Canllawiau ar Wahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Dyddiad Cyhoeddi Tachwedd 2019 dogfen gyfarwyddyd rhif: 255/2019)

Digwyddiadau'n berthynol i gyffuriau neu alcohol

Polisi'r ysgol yw ni ddylai unrhyw blentyn ddod ag unrhyw gyffur, cyfreithlon neu anghyfreithlon, i'r ysgol.

Bydd yr ysgol yn cymryd o ddifri y camddefnydd o unrhyw sylwedd megis glud, toddyddion eraill, neu alcohol. Ym mhob achos, hysbysir rhieni neu ofalwyr y plant sydd ynghlwm. Caiff unrhyw blentyn sydd yn bwrpasol dod â sylweddau i mewn i'r ysgol i bwrpas camddefnydd ei gosbi trwy waharddiad a bydd yr ysgol yn hysbysu'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Os caiff y digwyddiad ei ailadrodd, caiff y plentyn ei wahardd yn barhaol.

Os gwelir fod unrhyw blentyn yn dioddef oddi wrth effeithiau alcohol neu sylweddau eraill, gwneir trefniadau i fynd â'r plentyn dan sylw adref.

Os canfyddir fod plentyn wedi dod â sylweddau anghyfreithlon i mewn i'r ysgol yn fwriadol, ac yn cael ei fod yn dosbarthu'r rhain i ddisgyblion eraill am arian, caiff y plentyn ei wahardd yn barhaol o'r ysgol. Hefyd hysbysir yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Trais Gwirinoddol Difrifol neu Fygythiad

Bydd amgylchiadau eithriadol lle ym marn y pennaeth mae'n briodol gwahardd disgybl am drosedd gyntaf neu drosedd unigol pan fo disgybl mewn gwirionedd neu wedi bygwth trais yn erbyn dysgwr arall neu aelod o staff neu wedi defnyddio neu fygwth i ddefnyddio arf ymosodol. Bydd yr ysgol yn hysbysu'r heddlu os ydynt yn credu bod trosedd o'r fath wedi digwydd ac efallai y bydd yr ysgol yn dymuno hysbysu asiantaethau eraill e.e. gweithwyr cymdeithasol. Byddant hefyd yn cynnal priodol

Y Dull Adferol a'r defnydd o ganlyniadau

Wrth ddefnyddio canlyniadau yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, dylai'r plentyn/plant fod yn rhan o sgwrs adferol a bod yn rhan weithredol o benderfynu ar unrhyw ganlyniadau, gan sicrhau maent yn adeiladol ac yn caniatáu i'r plentyn ddysgu o'r hyn sydd wedi digwydd. Pryd mae canlyniadau yn cael eu gosod heb drafodaeth ystyrlon, mae'r plentyn yn debygol o weld ei hun fel dioddefwr cosb, yn hytrach na chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd gwreiddiol.

Cofnodi Digwyddiadau Ymddygiad:

Dylai staff gofnodi'r digwyddiadau/materion canlynol ar 'My Concern' (offeryn cwmwl diogelwch) os ydynt yn codi ar gyfer plentyn yn eu dosbarth/iard/cymuned:

1. Pan fo disgybl yn difrodi eiddo yn bwrpasol (sy'n perthyn i'r ysgol neu i unigolyn arall yn ysgol).
2. Digwyddiadau hiliol (mae angen adrodd ar y rhain hefyd, ar wahân, i'r Pennaeth).
3. Rhegi difrifol/cam-drin geiriol.
4. Digwyddiadau pan fo unigolyn arall (plentyn neu oedolyn) wedi'i anafu/ymosod yn fwriadol.
5. Digwyddiadau lle mae unigolyn arall wedi'i anafu/ymosod arno, mae'r dioddefwr yn dweud hynny oedd ar bwrpas, ac y mae anaf gweledig, pa un a ellir profi bwriad ai peidio.

6. Digwyddiadau sy'n ymwneud â materion parhaus gyda plentyn y mae angen eu cofnodi (er enghraifft, digwyddiadau rhwng dau blentyn nad ydynt hyd at lefel yr ymosodiad, ond sy'n rhoi tystiolaeth ychwanegol ac a darlun ehangach ar gyfer cyfarfodydd aml-asiantaeth, ac ati. Fel arall, efallai bod plentyn wedi ymddiried hynny eu bod yn cael eu bwlio, ac unrhyw ddigwyddiadau rhyngddyn nhw a'r plentyn sy'n gyfrifol am fwlio bydd ymddygiad yn cael ei gofnodi).

Ein blaenoriaeth yw meithrin ymddygiad cadarnhaol ac annog hunanddisgyblaeth fel plant yn ein gofal yn gallu datblygu'r sgiliau angenrheidiol i gyrraedd eu llawn botensial yn yr ysgol ac yn y gymdeithas. Gofynnwn am eich cefnogaeth felly gyda'n gilydd gallwn atgyfnerthu pwysigrwydd ymddygiad priodol ar gyfer y diogelwch a budd pawb. Rydym yn deall y gall fod yn ofidus i rieni a gofalwyr o gael gwybod am ymddygiad amhrïodol eu plentyn ond nid ydym yn gwneud hyn oherwydd rydym yn 'pigo' ar eich plentyn neu'n 'cymryd ochr' yn erbyn eich plentyn, rydym yn ei wneud oherwydd ein bod yn malio. Rydym ni eisïau i'ch plentyn ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i ddod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus sy'n gallu rheoli bywyd bob dydd mor annibynnol ag y gallent.

Mewn achos o gwmpo allan rhwng disgyblion na ellir ei ddatrys rhyngddynt eu hunain bydd aelodau staff yn cynnal sgwrs adferol rhwng y plant. Mae ymchwil gweithredu wedi profi y bydd hyn yn aml yn datrys y gwrthdaro. Mewn achos o ymddygiad gwahoddir rhieni sy'n parhau i drafod ymddygiad eu plentyn gyda'r athro dosbarth a/neu aelod o'r Uwch Dîm Arwain.

Ystyriaeth bellach

Bydd strategaethau ymyrraeth yn cael eu hystyried i osgoi digwyddiadau pellach ac i reoli eu ymddygiad e.e. gweithio gyda'r Cynorthwydd Dysgu Cymorth Emosiynol (ELSA) gan ddefnyddio y strategaethau cytunwyd arno.

Cynlluniau Cymorth Bugeiliol (PSPs) ac Asesu Risg

Ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ymateb i ddulliau'r ysgol ac sydd angen mwy o amser ymyrraeth mae Cynlluniau Cymorth Bugeiliol yn cael eu llunio gan ddefnyddio dull aml-asiantaeth (gan gynnwys y dysgwr, rhieni/gofalwyr a'r Tîm Cefnogi Ymddygiad os yn briodol). Bydd asesiad risg hefyd yn cael ei rhoi yn ei le.

Bydd gwaharddiad cyfnod penodol (dewis olaf) yn digwydd pan fo bygythiad uniongyrchol i ddiogelwch eraill yn yr ysgol neu'r dysgwr dan sylw.

Gellir defnyddio amser mewnlol i wasgaru sefyllfaoedd sy'n digwydd yn yr ysgol os mae angen i ddysgwr cael eu tynnu o'r dosbarth ond efallai na fydd angen eu gwahardd o safle'r ysgol. Gall y gwaharddiad hwn fod i ardal ddynodedig o fewn yr ysgol (swyddfa'r pennaeth fel arfer oherwydd diffyg lle yn yr ysgol) neu i ystafell ddosbarth arall gyda chefnogaeth briodol a gall barhau yn ystod cyfnodau egwyl.

Mewn rhai achosion ynysig oherwydd difrifoldeb gweithredoedd disgybl, efallai y bydd angen rhoi gwaharddiad cyfnod penodol.

Monitro ag adolygu

Mae'r pennaeth yn monitro effeithiolrwydd y polisi yma'n rheolaidd. Mae'r ysgol yn cadw amrywiaeth o gofnodion parthed achosion o gamymddwyn. Mae'r athrawon dosbarth yn cofnodi mân ddigwyddiadau yn y dosbarth. Mae'r pennaeth yn cofnodi'r achosion hynny lle caiff plentyn ei anfon ato oherwydd ymddygiad gwael.

Polisi Ymddygiad, Disgyblaeth a Pherthnasoedd YGG Parc y Tywyn

Mae'r pennaeth yn cadw cofnod o unrhyw blentyn gaiff ei wahardd am gyfnod penodol, neu ei wahardd yn barhaol.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am fonitro cyfradd y gwaharddiadau ac i sicrhau y gweithredir polisi'r ysgol yn deg a chyson. Bydd y corff llywodraethol yn talu sylw penodol i faterion o gydraddoldeb hiliol.

Gall y corff llywodraethol adolygu'r polisi os yw'r llywodraeth yn cyflwyno rheolau newydd, neu os yw'r corff llywodraethol yn derbyn argymhellion ar sut gellid gwella'r polisi.

	Enw	Llofnod	Dyddiad
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr M Davies	<i>MDavies</i>	17/10/24
Pennaeth yr Ysgol	Mrs A Williams	<i>AWilliams</i>	17/10/24

Dyddiad Adolygu	Hydref 2026
-----------------	-------------

Atodiad 1

Bydd y dull Team-Teach yn:

- Atgyfnerthu polisi ac arfer, hysbysu deddfwriaeth gyfredol, ystyriaethau cyfreithiol a canllawiau ar ymyriadau corfforol cyfyngol.
- Atgyfnerthu'r sgiliau geiriol a di-eiriau hanfodol sydd eu hangen mewn sefyllfaoedd o argyfwng.
- Gwneud grwpiau staff yn ymwybodol o ymyriadau angenrheidiol sy'n briodol i lefel yr ymddygiad a gyrraeddwyd gan y disgybl.
- Yn dilyn hyfforddiant, darparu staff gyda gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau corfforol sydd eu hangen er mwyn eu diogelwch personol, a rheolaeth y plant yn eu gofal.
- Cynnig strwythur ôl-ddigwyddiad i'r disgybl ac aelod o staff.

Nod Team Teach:

- Darparu fframwaith hyfforddi achrededig wedi'i gynllunio i leihau risg a thrwyddo cydweithio i ddiogelu pobl a gwasanaethau.

Amcanion Tîm Addysgu

- Datblygu gwerthoedd a rennir sy'n hybu'r agwedd, y sgil a'r wybodaeth sydd eu hangen i wneud allu gweithredu Team Teach yn y gweithle.
- Datblygu sgiliau trafod cadarnhaol mewn rheoli ymddygiad, gan gynnwys: llafar a cyfathrebu di-eiriau, dargyfeirio, dad-ddwysáu, ac ymyriadau chorfforol diogel, effeithiol a thrugarog.
- Datblygu sgiliau gwrandao a dysgu cadarnhaol.

Egwyddorion sylfaenol Team-Teach yw:

- O leiaf dau aelod o staff pan fo sefyllfa'n codi. Mae hyn yn amddiffyniad i'r ddau aelod o staff a disgyblion dan sylw.
- Gellir datrys 95% o sefyllfaoedd argyfyngus trwy strategaethau tawelu, rheoledig, urddasol a medrus.
- Lleiafswm grym ac amser – mae'n bwysig peidio ag ymateb yn emosiynol ond yn broffesiynol ac cyfansoddi. Dewis olaf (lle bo modd) – pob strategaeth rheoli ymddygiad arall wedi cael eu rhoi ar brawf a'u defnyddio yn gyntaf.
- Technegau ymyriad corfforol cyfyngol sy'n darparu system raddol, raddedig o ymateb – yn gymesur â'r sefyllfa, y dasg a'r unigolion dan sylw.
- Mae technegau'n caniatáu cyfathrebu llafar – gan ddefnyddio perthnasoedd cadarnhaol.
- Technegau nad ydynt yn dibynnu ar boen neu "gloeon" i'w rheoli.
- Mynd i'r afael â materion diogelwch ac amddiffyn staff – mae'n bwysig i staff gael ystod o technegau torri i fwrdd a rhyddhau mewn sefyllfa ddifrifol lle mae iechyd a diogelwch wedi cyrraedd risg.

Polisi Ymddygiad, Disgyblaeth a Pherthnasoedd YGG Parc y Tywyn

- Pwyslais ar ymwybyddiaeth staff a sgiliau cyfathrebu – geiriol a di-eiriau wedi arfer lleddfu sefyllfa o argyfwng posibl.
- Yn dilyn ataliaeth dylai fod strwythur cefnogol ac adfyfyriol ar gyfer y ddau aelod o staff a disgyblion.
- Dylid adrodd a chofnodi pob digwyddiad sy'n ymwneud â disgyblion yn cael eu rheoli'n gorfforol. monitro a gwerthuso.

Mae Team-Teach yn cael ei lywodraethu gan god ymarfer Sefydliad Anawsterau Dysgu Prydain (BILD).

Atodiad Dulliau Adfer

Adnoddau ar gyfer Arfer Orau ac Arweiniad

Y Cyngor Cyfiawnder Adferol yw'r corff arfer orau y byddwn yn ei ddefnyddio i gael gwybodaeth ac adnoddau a syniadau. Dyma eu gwefan: www.restorativejustice.org.

Partneriaeth Gweithredu Adferol Cymru yw ein partner hyfforddiant a chyflawni lleol a dyma ddewis Cyngor Bwrdeistref Penbre a Phorth Tywyn ar gyfer datblygu ysgolion. Mae Marc Ansawdd Gwasanaethau Adferol a Marc Ansawdd Ymarfer Hyfforddiant cenedlaethol ganddyn nhw a byddan nhw yn ein cynghori ar ymarfer, deunyddiau a safonau. Dyma eu gwefan:

www.restorativewales.org.uk

Chwe Egwyddor ymarfer adferol oddi wrth y Cyngor Cyfiawnder Adferol yw:

1. Adfer
2. Ymwneud yn wirfoddol
3. Bod yn ddiduedd
4. Diogelwch
5. Hygyrchedd
6. Grymuso

Bydd Partneriaeth Gweithredu Adferol Cymru (a gwledydd eraill e.e. Canada) hefyd yn cynnwys yr egwyddorion / gwerthoedd ychwanegol hyn (a fydd yn arbennig o bwysig ym maes addysg):

- Bod yn anfeirniadol
- Dangos empathi
- Cynhwysiant

Fframwaith Gweithredu Adferol mewn Ysgol Adfer

	<u>Beth</u>	<u>Pwy</u>	<u>Pryd</u>	<u>Ble</u>
Adeiladu a Chynnal Perthnasoedd	Cytundeb/Gofynion yr Ystafell Ddosbarth	Pob dosbarth Staff addysgu Staff cymorth Disgyblion	Dechrau'r Flwyddyn Yn ystod gwersi ar draws y cwricwlwm	Ystafelloedd Dosbarth
	Cylchoedd yn yr Ystafelloedd Dosbarth			
	Cylchoedd mewn grwpiau ar gyfer Cymorth a Herio Sesiynau "Siarad Am" ar gyfer disgyblion POD 3 penodol	Seicolegydd Addysg Swyddog Lles Addysg Cymorth ar gyfer Ymddygiad Staff addysgu Staff cymorth	Yn ôl y gofyn Boreau Llun a phrynhawniau Gwener	Ystafelloedd Dosbarth
	Negeseuon "dwi" (Cam 1)	Staff addysgu Staff cymorth Goruchwylwyr amser cinio	Yn ystod gwersi, amser egwyl ac amser cinio, ac ati ar gyfer problemau lefel isel	Ystafelloedd Dosbarth, neuadd, iard, coridorau, Calon yr Ysgol
	Sgwrs Adferol – "sgwrs anffurfiol" (Cam 2)	Staff addysgu Staff cymorth Goruchwylwyr amser cinio Bydis	Yn ystod gwersi, amser egwyl ac amser cinio, ac ati ar gyfer digwyddiadau lefel isel, neu os na fu neges "dwi" yn effeithiol	Ystafelloedd Dosbarth, neuadd, iard, coridorau
	Sgwrs Adferol – Cyfarfod Ffurfiol (a chylch Datrys- Problem os bydd angen) (Cam 3)	Staff addysgu Staff cymorth	Ar gyfer digwyddiadau lefel isel a fydd yn parhau pan na fu "sgwrs anffurfiol" yn effeithiol	Man tawel, e.e. ystafell ddosbarth wag

	Cynhadledd Ffurfiol (Cam 4)	Dan arweiniad aelod o'r staff a fydd wedi'i hyfforddi'n llawn (nad oedd yn rhan o'r digwyddiad) Rhieni a staff uwch i gael gwybod	Digwyddiadau difrifol	Ystafell breifat, e.e. ystafell ELSA (cynorthwyydd cymorth llythrennedd emosiynol), ystafell ddsbarth wag
	Gwahardd/ Gofod Adferol (Cam 5)	ELSA Pennaeth/Dirprwy	Amgylchiadau eithafol	Ystafell ELSA Swyddfa'r Pennaeth

Camau Ymateb

Bydd gweithredu adferol yn defnyddio'r lefel isaf a'r ymateb symlaf ar y cyfle cyntaf gyda phawb y gwnaeth y broblem effeithio arnyn nhw.

CAM 1 – Negeseuon “dwi”

- Bydd aelod o'r staff yn rhoi gwybod i'r disgybl ynglŷn â'r broblem. Bydd yr aelod hwnnw'n defnyddio iaith adferol i siarad â'r disgybl, er enghraifft:
 - 'Pan dw i'n gweld / clywed...'
 - 'Dwi'n meddwl.....ac dwi'n teimlo'n...'
 - 'Dw i angen...'
 - 'Byddet ti'n fodlon...?'
- Does dim angen cadw cofnod ffurfiol

CAM 2 – Sgwrs Adferol

- Sgwrs anffurfiol yn defnyddio'r Cwestiynau Adferol (ni fydd angen amser paratoi bob tro neu gytuno ar ganlyniad).
- Gallai ddigwydd yn yr ystafell ddsbarth neu mewn coridor, neuadd fwyta neu iard chwarae ar unrhyw bryd.
- Bydd aelod unigol o'r staff yn dechrau ac yn arwain y broses.
- Mae'n bosib cyfeirio problemau lefel isel disgyblion i'r cyfryngwyr gymheiriaid er mwyn cael cyfarfod adferol un-i-un, neu gynhadledd rhwng disgyblion. Bydd yr un safonau ymarfer, cofnodi a goruchwyllo yn berthnasol i gyfarfodydd o dan arweiniad disgyblion â'r rhai o dan arweiniad oedolion, gyda phrosesau diogelu clir a goruchwyliaeth gan staff.
- Cofnodi ar My Concern.

CAM 3 – Cyfarfod Ffurfiol

- Os bydd yr ymddygiad gwael yn parhau, bydd disgybl ac athro yn cwrdd i gael sgwrs fwy ffurfiol am y digwyddiad.
- Caiff y disgybl gopi o'r Cwestiynau Adferol ac amser i baratoi os bydd angen. Gallai fod aelod arall o'r staff yn bresennol i hwyluso'r cyfarfod. Gallai cylch datrys problem fod yn ofynnol.
- Bydd angen cynhyrchu cytundeb canlyniad yn y cyfarfod a'i lofnodi gan y ddau barti.


CAM 4 – Cynhadledd Ffurfiol

- Mae'n bosib y bydd angen cyfarfod ffurfiol i gael delio â digwyddiadau mwy difrifol, a bydd rhaid i aelod o'r staff nad yw'n rhan o'r broblem hwyluso'r cyfarfod. Dylid rhoi gwybod i'r staff uwch a/neu'r rhieni/ gofalwyr.
- Bydd y cwestiynau adferol yn cael eu gofyn i bob parti.
- Bydd rhaid cael cytundeb canlyniad.
- Yr unig rai a gaiff hwyluso'r cyfarfodydd hyn yw'r staff a gafodd yr hyfforddiant pedwar diwrnod.

CAM 5 – Gofod Adferol / Gwaharddiad

- Mewn amgylchiadau eithafol, gall disgybl gael ei (h)anfon i Swyddfa'r Pennaeth.
- Bydd rhaid cael sgwrs neu gyfarfod adferol, a chyfarfod ail-integreiddio gyda'r aelod o'r staff perthnasol; bydd rhaid cynhyrchu Cytundeb Canlyniad ysgrifenedig, wedi'i lofnodi, a gaiff ei rannu gyda phawb yr effeithiwyd arnyn nhw ar gyfer tracio cyflawni canlyniadau a newid.
- Rhaid i aelod o'r staff a gafodd yr hyfforddiant RAIS llawn gynnal y cyfarfod ail-integreiddio.
- Dylid edrych eto ar y Cytundeb Canlyniad ymhen wythnos i gael monitro cynnydd.

Gweithredu Adferol ar draws strategaethau ysgol allweddol



Gweithredu Adferol a Hawliau'r Plentyn

Bydd gweithredu adferol yn helpu i foddhau anghenion, hawliau a chyfrifoldebau plant a'r bobl a fydd yn gweithio gyda nhw. Bydd Siarter y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)¹ yn ein hatgoffa bod hawl gan blant i gael: **Eu Hamddiffyn; Bod yn Gydradd; Addysg; Eu Clywed; Bod yn Iach a Diogel. Bydd gweithio'n adferol yn mynd i'r afael yn arbennig â'r hawliau allweddol sydd yn erthyglau canlynol y Siarter:-**

Erthygl 3 Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant bob amser wneud yr hyn a fydd orau i bob plentyn.

Erthygl 12 Eich hawl i ddweud yr hyn rydych yn meddwl a ddylai ddigwydd ac i rywun wrando arnoch.

Erthygl 13 Eich hawl i gael gwybodaeth.

Erthygl 15: Eich hawl i gyfarfod â ffrindiau ac i ymuno â grwpiau a chlybiau.

Erthygl 19 Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel.

Erthygl 23 Eich hawl i ofal arbennig a chymorth os bydd anabledd gennych i chi gael byw bywyd llawn ac annibynnol.

Erthygl 25 Dylid mynd i weld plant nad ydynt yn byw gyda'u teuluoedd yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn iawn.

Erthygl 28 Eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.

Erthygl 29 Eich hawl i fod y gorau gallwch fod.

Erthygl 31 Eich hawl i ymlacio a chwarae.

Erthygl 33 Dylech gael eich diogelu rhag cyffuriau peryglus.

Erthygl 34 Dylai'r llywodraeth ddiogelu plant rhag cam-drin rhywiol.

Erthygl 36 Dylech gael eich diogelu rhag gwneud pethau a allai beri niwed i chi.

Erthygl 37 Eich hawl i gael eich trin yn deg os torrwch y gyfraith.

Erthygl 39 Dylai plant gael cymorth arbennig os ydynt wedi cael eu cam-drin.

¹ Hawliau plant yw'r holl bethau y bydd eu hangen ar blant a phobl ifanc i gael sicrhau eu bod yn ddiogel, bod y pethau angenrheidiol er mwyn goroesi a datblygu ganddyn nhw, a bod rhan ganddyn nhw yn y penderfyniadau a fydd yn effeithio ar eu bywydau. Mae **Siarter y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)** wedi casglu hawliau dynol plant yn Erthyglau. Penderfynodd Llywodraeth Cymru gymryd cam ychwanegol a gwneud y Siarter yn gyfraith yng Nghymru gyda **Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**. Newidiodd y Mesur y ffordd y byddwn yn gweithio, a bydd rhaid i ni ystyried hawliau plant ym mhob peth a wnawn. Gweler www.hawliauplant.cymru

Gweithredu adferol a chysylltiadau â rhaglenni strategol a chymunedol ehangach

